

**CYFARFOD SWYDDOGOL GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG CYNGOR RHONDDA
CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, brynhawn Iau, 21 Gorffennaf, 2016 am 2:00 ym Mhencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Dyma Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

G Hopkins – Cadeirydd

R Bevan

(Mrs) E Hanagan

C Davies

Dyma'r swyddogion oedd yn bresennol

Mrs E Thomas - Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mr S Gealy – Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

Ms E Siôn-Menter Iaith

Christian Hanagan - Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mrs E Wilkins – Swyddog Busnes y Cabinet

Mrs H Williams – Swyddog Busnes y Cabinet

Eraill oedd yn bresennol

Mr C Campbell – Sbectrwm

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol y Cyng M. Webber a Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned.

2 CROESO

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion am fynychu cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a'u cyflwyno i Mr Cefin Campbell, ymgynghorydd sy'n cynorthwyo'r Cyngor i baratoi ei strategaeth hybu'r Gymraeg 5 Mlynedd. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Uned Gwasanaethau Cymraeg am ei gwaith ardderchog mewn perthynas ag agwedd y Cyngor o ran gweithredu Safonau Statudol Comisiynydd y Gymraeg a siaradodd am yr angen i wasanaethau'r Cyngor weithio gyda'i gilydd gyda chymorth Mr Campbell i ganfod y ffordd orau ymlaen.

3 DATGAN BUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddi-ddordeb parthed cynnwys yr agenda.

4 COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfodydd 10^{fed} Tachwedd, 2015 a 7^{fed} Mawrth 2016 yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfodydd.

5 Y GYMRAEG - STRATEGAETH HYBU 5 MLYNEDD CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaeth Uned Gwasanaethau'r Gymraeg gefndir byr ar sefyllfa'r Cyngor mewn perthynas â'r Safonau Statudol. Eglurodd y swyddog bod angen i'r Cyngor baratoi strategaeth 5 mlynedd i gydymffurfio â Safon 145. Eglurwyd er mwyn gwneud hyn, roedd y Cyngor wedi gofyn am gymorth Mr Campbell i herio aelodau a swyddogion a rhoi cymorth iddyn nhw baratoi'r strategaeth.

Cyn dechrau trafodaethau, dywedodd Mr Campbell wrth yr Aelodau mai'r ddau brif amcan wrth gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg oedd:-

1. Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad yr iaith
2. Parhau i'w siarad hi yn gyson

Eglurodd er mwyn i'r Cyngor fodloni'r amcanion hynny, rhaid canolbwyntio ar ddatblygu:-

1. Y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref
2. Addysg - Dysgu'r iaith yn yr ysgol gynradd a sicrhau parhad o ran ei defnydd yn yr ysgol uwchradd a thu hwnt i gatiâu'r ysgol
3. Cynnal/dysgu'r iaith yn oedolyn

➤ Y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref

Er siaradodd yr Aelodau yn gadarnhaol am frwdfrydedd dysgwyr ifainc, mynegon nhw bryder bod, yn y pen draw, dirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg ar ôl gadael ysgol. Gofynnodd Mr Campbell pam mai dyma'r achos hwn ac esboniodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes bod diffyg hyder wrth arfer yr iaith y tu allan i'r ysgol ac ar ôl cyfnod ysgol. Awgrymwyd bod angen i rieni ryngweithio gyda'u plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cartref i feithrin hyder.

Ailadroddodd y cynrychiolydd o Fenter Iaith hyn, gan ddweud os ydy plant yn cael eu magu ar aelwydydd sy'n siarad Saesneg, maent yn llai tebygol o siarad Cymraeg yn y cartref o ran arfer sy'n cyfrannu at y diffyg hyder. Mynegodd bod y diffyg hyder hwn yn amlwg wedi i bobl ifanc adael yr ysgol, gan ddweud eu bod yn llai tebygol o ddewis swyddi sydd angen y Gymraeg os bu bwllch o ran ei defnyddio rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg.

➤ Addysg

Bu trafodaethau ynghylch y ddarpariaeth addysg yn Rhondda Cynon Taf gydag Aelodau yn nodi sylwadau ar lwyddiant ar lefel ysgol gynradd.

Bu trafodaeth bellach o gwmpas hyrwyddo'r iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg lle dysgir Cymraeg fel ail iaith.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at y llyfryn 'Bod yn ddwyieithog' sy wedi cael ei baratoi ar y cyd â Menter Iaith yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r llyfryn yn rhoi gwybodaeth i rieni am fanteision anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Esboniwyd bod angen dosbarthiad ehangach ar gyfer y llyfryn ac y byddai'n ddefnyddiol cael copïau mewn canolfannau hamdden lleol, llyfrgelloedd ac ar y wefan i dargedu rhieni newydd.

Mynegodd un aelod bryder ynghylch y dirywiad o ran dewis rhieni pe bai'r Gymraeg yn dod yn flaenoriaeth. Ailadroddodd pwysigrwydd ysgolion dwy iaith a thynnu sylw at yr angen am integreiddio, gan ychwanegu y gallai achosi ymraniad cymdeithasol.

Cododd ymholiad perthynas â phrifysgolion yng Nghymru a'r cyfleoedd ehangach i ddefnyddio'r iaith ar lefel uwch. Dywedodd yr Aelodau bod amrywiaeth o brifysgolion lle mae'r Gymraeg yn cael lle amlwg, gan gynnwys Aberystwyth a Bangor a bod cyfleoedd ar gyfer parhad yn agosach i adre hefyd megis ym Mhrifysgol De Cymru a cholegau lleol eraill.

Mewn perthynas â darpariaeth addysg Gymraeg, cytunwyd y bydd:

- Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg yn trefnu ymweld ag ysgolion i ganfod safonau o ran y Gymraeg.
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael ar gyfer staff mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i sicrhau bod safonau Cymraeg yn cael eu gwella

➤ **Cynnal/dysgu'r iaith yn oedolyn**

Cyfeiriodd Mr Campbell yr Aelodau at y pwynt olaf ynghylch cyfleoedd ar gyfer oedolion i ddysgu'r Gymraeg. Cafodd yr Aelodau wybod am y gwaith a wnaed eisoes o fewn y sector plant a sefydliadau'r trydydd sector. Siaradodd y cynrychiolydd o Fenter Iaith yn gadarnhaol am y gwaith ar y cyd sy'n anelu at wella'r ddarpariaeth o ran nifer y siaradwyr a chreu llwybrau penodol o fydd addysg i'r sector gwaith.

Disgrifiwyd sefydliadau megis yr Urdd hefyd yn gysylltiadau defnyddiol ar gyfer pontio i mewn i'r sector gwaith. Dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau fod y cyfleoedd hyn yn datblygu o hyd a bod angen cynlluniau mwy cynhwysfawr i lwyddo.

Aeth y drafodaeth ymlaen i gynnwys y gymuned hŷn sydd efallai wedi gadael ysgol nifer o flynyddoedd yn ôl ond am ddysgu'r iaith. Cynghorwyd bod amrywiaeth o gyrsiau yn y Sir lle mae modd i drigolion ymuno â dosbarth sy'n addas i'w gallu/lefel. Codwyd cwestiynau o ran costau ac eglurodd swyddogion bod staff sy'n gweithio i'r awdurdod lleol bellach yn cael cyfle i ddysgu am ddim, yn dibynnu ar gynnal gwasanaeth. Siaradodd Aelodau yn gadarnhaol am y ddarpariaeth bresennol sy'n caniatáu i staff gael eu rhyddhau o'r gwaith i fynychu dosbarthiadau iaith, sy'n dangos y camau cadarnhaol sy wedi cael eu gwneud eisoes. Mynegodd yr Aelodau yr angen am ddsbarthiadau rhad, anffurfiol, gan ddweud y byddai hyn yn gam wrth fynd i'r afael â'r mater parhaus o ddiffyg hyder.

Awgrymodd un aelod yr angen am fwy o ymgysylltu cymunedol er mwyn hyrwyddo digwyddiadau lleol, megis gwefan neu daflen. Cynghorwyd bod proses eisoes ar waith yn Nhreorci sy'n boblogaidd gyda thrigolion sy'n mynychu cyrsiau a chorau yn wythnosol.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD**

- Bydd Mr Campbell yn casglu gwybodaeth ledled yr awdurdod lleol a chynnwys syniadau o gyfarfod heddiw yn y strategaeth drafft 5 mlynedd.
- Bydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cyfarfod yn y dyfodol i gymeradwyo ac addasu'r strategaeth yn ôl ei ddoethineb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.35
Hopkins**

Y Cynghorydd G

Cadeirydd.